

Technegau abladiad endometriaidd balwân thermol llawn hylif ac abladiad endometriaidd microdon ar gyfer gwaedu mislifol trwm

**Deall arweiniad NICE –
gwybodaeth i ferched sy'n dioddef
gwaedu mislifol trwm, a'r cyhoedd**

**Technegau abladiad endometriaidd bal_n thermol llawn hylif ac
abladiad endometriaidd meicrodon ar gyfer gwaedu mislifol trwm
Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i ferched sy'n dioddef gwaedu
mislifol trwm, a'r cyhoedd**

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2004

Dyddiad adolygiad: Ebrill 2007

I archebu copïau

Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch rif cyfeirnod N0461. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0460. Mae arfarniad technoleg NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno *Fluid-filled thermal balloon and microwave endometrial ablation techniques for heavy menstrual bleeding* ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk/TA078guidance). Mae fersiwn byr o'r arweiniad ('canllaw cyfeirio cyflym') hefyd ar gael o'r wefan (www.nice.org.uk/TA078quickrefguide) neu o Linell Ymateb y GIG, rhif cyfeirnod N0459.

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-541-4

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol
Ebrill 2004

Cysodwyd gan Icon Design, Eton

Argraffwyd gan Abba Litho Sales Limited, Llundain

© Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Medi 2003. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

Cynnwys

Beth yw arweiniad NICE?	4
Beth yw gwaedu mislifol trwm?	5
Beth yw'r technegau abladiad endometriaidd balŵn thermol llawn hylif ac abladiad endometriaidd meicrodon?	6
Beth mae NICE wedi ei argymhell?	7
Beth ddylwn i ei wneud nesaf?	9
A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad?	9
Gwybodaeth bellach	10

Beth yw arweiniad NICE?

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) yn rhan o'r GIG. Mae'n cynhyrchu arweiniad (argymhellion) ar ddefnyddio meddyginiaethau, offer meddygol, profion diagnostig a gweithdrefnau clinigol a llawfeddygol o fewn y GIG yng Nghymru a Lloegr.

I gynhyrchu'r arweiniad hwn, mae NICE yn ystyried pa mor dda y mae'r feddyginiaeth, yr offer neu'r weithdrefn yn gweithio a hefyd pa mor dda y mae'n gweithio o'i gymharu â'r gost. Gelwir y broses hon yn arfarniad. Mae'r broses o arfarnu yn cynnwys gweithgynhyrchydd y feddyginiaeth neu'r offer y llunnir yr arweiniad ar ei gyfer, a'r sefydliadau sy'n cynrychioli'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y cleifion a'r gofalwyr y bydd yr arweiniad yn effeithio arnynt.

Gofynnwyd i NICE edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael am ddefnyddio technegau abladiad endometriaidd balw'n thermol llawn hylif ac abladiad endometriaidd meicrodon sef dulliau o reoli gwaedu mislifol trwm. Gofynnwyd i NICE ddarparu arweiniad a fyddai'n helpu'r GIG yng Nghymru a Lloegr i benderfynu pryd y dylid defnyddio'r technegau hyn.

Beth yw gwaedu mislifol trwm?

Yn ystod misglwyf, bydd y meinwe sy'n leinio'r groth yn dod i ffwrdd a chaiff ei basio drwy'r fagina gyda rhywfaint o waed. Yn y cyfnod cyn y misglwyf nesaf, bydd y meinwe sy'n leinio'r groth (a elwir yn 'endometriwm') yn tyfu eto. Dywedir bod merched yn dioddef gwaedu mislifol trwm os yw'n arferol iddynt golli llawer o waed a meinwe yn ystod eu misglwyf neu os bydd eu misglwyf yn para'n hirach na 7 diwrnod. Y gair meddygol am hyn yw menorrhagia.

Mae'r opsiynau ar gyfer trin gwaedu mislifol trwm yn cynnwys:

- cymryd meddyginiaeth i leihau'r gwaedu
- cael gosod dyfais yn y groth sy'n rhyddhau swm bach o gyffur atal cenhedlu er mwyn arafu twf yr endometriwm
- cael tynnu peth o'r endometriwm (mae sawl ffordd o wneud hyn)
- cael tynnu'r groth (sef 'hysterectomi').

Rhoddir cynnig ar feddyginiaethau fel arfer cyn ystyried llawdriniaeth.

Beth yw'r technegau abladiad endometriaidd balw'n thermol llawn hylif ac abladiad endometriaidd meicrodon?

Mae abladiad endometriaidd balw'n thermol llawn hylif ac abladiad endometriaidd meicrodon yn ffyrdd o leihau'r swm o waed a'r meinwe a gaiff ei golli drwy ddistrio ('abladu') yr endometriwm drwy ddefnyddio gwres.

Gydag abladiad endometriaidd balw'n thermol, rhoddir balw'n heb ei llenwi yn y groth drwy'r fagina a'r serfics. Yna, bydd y meddyg yn llenwi'r balw'n â hylif wedi'i gynhesu a'i ddefnyddio i ddistrio'r endometriwm.

Gydag abladiad endometriaidd meicrodon, daw'r gwres o feicrodonau a gaiff eu cynhyrchu gan chwiliedydd, a gaiff ei roi yn y groth drwy'r fagina a'r serfics, a chaiff ei symud o un ochr i'r llall i ddistrio'r endometriwm.

Nid yw'r technegau hyn yn addas ar gyfer pob merch sy'n dioddef gwaedu mislifol trwm. Er enghraifft, ni ellir eu defnyddio ar gyfer merched sydd wedi cael math arbennig o doriad Cesaraid (a elwir yn doriad Cesaraid 'clasurol') pan wnaed toriad 'i fyny ac i lawr' yn yr abdomen nac ar gyfer merched sydd wedi cael llawdriniaeth arall ar y groth sydd wedi gadael craith lle mae mur y groth yn llai na 8mm o drwch. Ac mae'r dull balw'n yn anaddas ar gyfer

merch sydd â chroth fawr neu un sydd â siap afreolaidd. Y rheswm am hyn yw bod angen i'r balw'n fod mewn cysylltiad uniongyrchol â mur y groth er mwyn dinistrio'r endometriwm.

Beth mae NICE wedi ei argymhell?

Yn ystod yr arfarniad, clywodd a darllenodd Pwyllgor Arfarnu NICE dystiolaeth gan:

- astudiaethau o safon uchel o abladiad endometriaidd balw'n thermol llawn hylif ac abladiad endometriaidd meicrodon
- meddygon sydd â gwybodaeth arbenigol am abladiad endometriaidd
- unigolion sydd â gwybodaeth arbenigol am faterion sy'n effeithio ar ferched sy'n dioddef gwaedu mislifol trwm
- sefydliadau sy'n cynrychioli barn pobl yr effeithir arnynt gan yr arweiniad (am fod ganddynt y cyflwr neu am eu bod yn gofalu am rywun sydd â'r cyflwr neu am eu bod yn gweithio yn y GIG ac yn ymwneud â'r broses o ddarparu gofal i bobl sydd â'r cyflwr)
- gweithgyngrychyd/wyr y dyfeisiadau a ddefnyddir ar gyfer y technegau abladiad endometriaidd a arfarnwyd.

Caiff y dystiolaeth ei chrynhoi yn yr arweiniad llawn (gweler y manylion ar dudalen 10). Rhoddir mwy o wybodaeth am yr astudiaethau yn yr adroddiad asesu ar gyfer yr arfarniad hwn (gweler y manylion ar dudalen 10).

Mae NICE wedi argymhell y dylai abladiad endometriaidd balŵn thermol llawn hylif neu abladiad endometriaidd meicrodon fod yn opsiynau ar gyfer merch sy'n dioddef gwaedu mislifol trwm pan fydd llawdriniaeth yn ffordd briodol o reoli ei gwaedu.

Dylai'r ferch a'i meddyg ddewis y math o driniaeth lawfeddygol ar ôl iddynt gael trafodaeth sy'n cwmpasu:

- y canlyniadau a ddisgwylir gan y driniaeth (megis lleihad yn y gwaedu mislifol neu ddim gwaedu mislifol)
- manteision ac anfanteision yr holl opsiynau triniaethau eraill
- amgylchiadau meddygol penodol y ferch (ei chyflwr, ei haddasrwydd ar gyfer y triniaethau lawfeddygol gwahanol, a'i dymuniadau)

Beth y dylwn i ei wneud nesaf?

Os ydych chi neu rywun yr ydych yn gofalu amdanynt yn dioddef gwaedu mislifol trwm, dylech drafod yr arweiniad hwn gyda'ch meddyg

A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad?

Bydd. Caiff yr arweiniad ei adolygu ym mis Ebrill 2007.

Gwybodaeth bellach

Mae gwybodaeth bellach am NICE a'r arweiniad llawn ar abladiad endometriaidd balw'n thermol llawn hylif ac abladiad endometriaidd microdon ar gyfer gwaedu mislifol trwm a gyhoeddwyd i'r GIG ar gael ar wefan NICE (www.nice.org.uk). Mae'r adroddiad asesu, sy'n cynnwys manylion yr astudiaethau a ystyriwyd, hefyd ar gael o wefan NICE. Mae fersiwn byr o'r arweiniad ('canllaw cyfeirio cyflym') ar gael ar y wefan ac o Linell Ymateb y GIG (rhif cyfeirnod N0459).

Os oes gennych fynediad i'r Rhynggrwyd, ceir mwy o wybodaeth am fisglwyfau trwm o wefan Galw Iechyd Cymru (www.nhsdirect.wales.nhs.uk). Gallwch ffonio Galw Iechyd Cymru hefyd ar 0845 46 47.